



Dirnad Economi Cymru

Adroddiad chwarterol

Mehefin 2018



Cardiff Business School
Ysgol Busnes Caerdydd



Office for
National Statistics
Swyddfa
Ystadegau Gwladol





Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyhoeddi'r adroddiad hwn ar gyllid Busensau Bach a Chanolig (BBaCh); y cyntaf mewn cyfres o adroddiadau Dirnad Economi Cymru, sydd newydd gael ei greu.

Mae Dirnad Economi Cymru yn gydweithrediad rhwng Banc Datblygu Cymru, Ysgol Busnes Caerdydd a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Mae Dirnad Economi Cymru yn elfen graidd newydd o'r Banc Datblygu Cymru a hwn yw'r diweddaraf ymysg nifer o lansiadau ers i'r Banc Datblygu ei hun gael ei lansio ym mis Hydref 2017.

Bydd Dirnad Economi Cymru yn casglu ac yn dadansoddi data i greu llwyfan annibynnol, cadarn a dibynadwy i lywio penderfyniadau amserol a phenderfyniadau ariannu. Bydd y penderfyniadau hyn o fudd i entrepreneuriaid a busnesau bach a chanolig, gan wella economi Cymru yn gyffredinol. Bydd Dirnad Economi Cymru hefyd yn ceisio nodi a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau data yng Nghymru.

Mae Grŵp Llywio sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Banc Datblygu Cymru, Ysgol Busnes Caerdydd a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi cael ei greu i adolygu a chymeradwyo allbynnau Dirnad Economi Cymru.

Bydd Ysgol Busnes Caerdydd, ar ran Dirnad Economi Cymru, yn cynhyrchu adroddiadau chwarterol ar faterion cyllid BBaCh a chyflwr yr economi o safbwynt busnesau bach a chanolig yng Nghymru. Dros amser bydd hyn yn creu corff dadansoddi gwrthrychol, sy'n seiliedig ar ffeithiau.

Yn ogystal ag adroddiadau chwarterol, bydd Ysgol Busnes Caerdydd yn cynhyrchu nifer o adroddiadau pwrpasol ar sail flynyddol ar faterion allweddol a phynciau sy'n berthnasol i fusnesau yng Nghymru. Bydd y cyntaf o'r rhain yn canolbwyntio ar yr heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu busnesau bach a chanolig yng Nghymru mewn perthynas ag allforion.

Mae Dirnad Economi Cymru yn awyddus i annog syniadau, adborth a chydweithrediad gan academyddion, ymchwilwyr a sefydliadau eraill i ehangu'r briff ac annog arloesedd mewn ymchwil economaidd. Mae'r mecanwaith ar gyfer awgrymu pynciau adroddiadau pwrpasol a phartneriaid ymchwil addas i'w gweld ar dudalen ymroddedig Dirnad Economi Cymru ar wefan y Banc Datblygu.

Mae'r angen am asesiadau cywir ac amserol o gyflwr economi Cymru yn hanfodol o ran gallu'r Banc Datblygu Cymru i ddarparu cymorth ariannol yn briodol i entrepreneuriaid a busnesau micro, bach a chanolig.

Yn y pen draw, y nod yw i'r adroddiadau hyn gael eu parchu o ddifri a chael eu hysbysebu'n eang fel tirtod da o gyflwr economi Cymru.

Giles Thorley

Prif Weithredwr, Banc Datblygu Cymru



Cynnwys

1	Cyflwyniad	4
2	Y Cyd-destun yng Nghymru	5
	2.1 Rhagolygon economaidd y DG a rhanbarthol	5
	2.2 Darlun o BBaCh yng Nghymru: deall ffactorau sy'n ffurfio'r galw am gyllid	6
3	Darparu cyllid BBaCh a chost cyllid	8
4	Gweithgaredd Banc Datblygu Cymru	9
5	Casgliad	10
6	Dangosfyrddau Mehefin 2018	12

Max Munday, Annette Roberts a Meng Song

Uned Ymchwil Economi Cymru,

Ysgol Busnes Caerdydd

mundaymc@cf.ac.uk

Am ragor o wybodaeth neu i gyflwyno adborth a chynigion ymchwil, e-bostiwch:

Dirnadeconomi@banccatblygu.cymru

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) wedi cynghori ar gynhyrchu'r adroddiad hwn ond nid yw'n gyfrifol am y safbwyntiau na'r ystadegau a gyflwynwyd ac nid yw wedi dilysu'r cynnwys.

Dirnad Economi Cymru Cyfyngedig, 1 Capital Quarter, Stryd Tyndall, Caerdydd CF10 4BZ, 11001584.

Banc Datblygu Cymru ccc (Development Bank of Wales Plc) yw cwmni daliannol Grŵp sy'n masnachu fel Banc Datblygu Cymru. Mae'r Grŵp yn cynnwys nifer o is-gwmnïau sydd wedi'u cofrestru gydag enwau gan gynnwys llythrennau cychwynnol yr enw BDC. Mae Banc Datblygu Cymru ccc yn gwmni cyllid datblygu sy'n eiddo yn gyfan gwbl i Weinidogion Cymru ac nid yw'n cael ei awdurdodi na'i reoleiddio gan yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (ARhD) na'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (AYA). Mae gan Fanc Datblygu Cymru (Banc Datblygu Cymru ccc) dri is-gwmni sy'n cael eu hawdurdodi a'u rheoleiddio gan yr AYA. Sylwer nad yw Banc Datblygu Cymru ccc nac unrhyw un o'i is-gwmnïau yn sefydliadau bancio ac nid ydynt yn gweithredu fel y cyfryw. Mae hyn yn golygu na fydd unrhyw un o endidau'r grŵp yn gallu derbyn dyddodion gan y cyhoedd. Mae siart strwythur cyfreithiol cyflawn ar gyfer Banc Datblygu Cymru ccc ar gael yn y fan banccatblygu.cymru



1. Cyflwyniad

Dyma'r cyntaf mewn cyfres chwarterol o adroddiadau Dirnad Economi Cymru (DEC) gan Ysgol Busnes Caerdydd sy'n archwilio tueddiadau allweddol BBaCh yn economi Cymru, yn enwedig mewn perthynas â'r galw a'r cyflenwad ar gyfer darparu cyllid.

Mae'r gyfres o *Adroddiad Chwarterol* (ACh) yn deillio o gydweithrediad rhwng Ysgol Busnes Caerdydd, Banc Datblygu Cymru, a Champws Data Gwyddoniaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG). Mae'r SYG wedi cynghori ar gynhyrchu'r adroddiad hwn ond nid yw'n gyfrifol am y safbwyntiau na'r ystadegau a gyflwynwyd ac nid yw wedi dilysu'r cynnwys. Ochr yn ochr â'r gyfres o Adroddiadau Chwarterol, bydd y tîm ymchwil hefyd yn cynhyrchu cyfres o adroddiadau pwrpasol bob blwyddyn yn archwilio materion economaidd penodol i fusnesau bach a chanolig. Bydd y cyntaf o'r rhain ar gael ym mis Awst 2018, a bydd yn archwilio cyllid i gefnogi gweithgarwch allforio BBaCh Cymru.

Bydd cynnwys y gyfres ACh yn amrywio dros amser, gan adlewyrchu argaeledd data BBaCh. Nod y ACh cyntaf hwn yw sefydlu darlun gwaelodlin o weithgarwch BBaCh Cymru, gyda ACh yn y dyfodol wedyn yn nodi newidiadau a thueddiadau o'r llinell sylfaen hon. Bydd cydweithrediad DEC yn archwilio'r ddarpariaeth bresennol o ddata sy'n ymwneud â busnesau bach a chanolig yng Nghymru a bydd yn nodi bylchau mewn data. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar ddata sydd ar gael i'r cyhoedd (a adroddir yn gyffredinol yn y blynyddoedd calendr) ynghyd â dadansoddiad arbennig o'r data a ddarperir gan y Banc Datblygu Cymru (a adroddir yn bennaf yn y blynyddoedd ariannol). Oherwydd gwahaniaethau yn ystod y cyfnodau adrodd, bydd rhywfaint o anghydfurfedd tymhorol o ran data yn yr adroddiad hwn.

Y nod cyffredinol ar gyfer yr ACh yw darparu data a sylwebaeth a fydd yn helpu i ddeall:

- Tueddiadau diweddar yn nhwf BBaCh, busnesau sy'n dechrau o'r newydd, ymadawiadau a rhagolygon goroesi busnesau yng Nghymru.
- Ffactorau rhanbarthol a macro-economaidd sy'n llunio'r galw am gyllid BBaCh yng Nghymru.
- Y cyflenwad cyllid ar gyfer busnesau bach a chanolig yng Nghymru.
- Y symiau a'r mathau o fenthyca / buddsoddi mewn gweithrediadau BBaCh yng Nghymru.

Yn ogystal, mae'r gyfres ACh yn crynhoi gweithgareddau Banc Datblygu Cymru yng nghyd-destun ffactorau sy'n effeithio ar y galw am, a'r cyflenwad o, gyllid i BBaChau yng Nghymru. Yn gryno, bydd y ACh yn nodi:

- Y defnydd a wneir o gronfeydd y Banc Datblygu wrth ariannu busnesau bach a chanolig yng Nghymru, a pha fath o fentrau a diwydiannau sy'n cael eu cefnogi.
- Dosbarthiad daearyddol cefnogaeth BBaCh ar hyd a lled Cymru.

Yn ychwanegol, bydd ACh olaf pob blwyddyn yn cynnwys:

- Y canlyniadau ar gyfer buddiolwyr BBaCh yn sgil arian cyllido Banc Datblygu Cymru o ran twf a goroesiad.
- Effaith economaidd ehangach gweithgaredd Banc Datblygu Cymru.

Mae pedair rhan arall yn yr ACh hwn. Mae'r ail ran yn darparu data a sylwebaeth mewn perthynas â chyd-destun BBaCh Cymru a dadansoddiad o'r ffactorau hynny sy'n effeithio ar y galw am gyllid BBaCh yng Nghymru. Yn y drydedd ran, mae'r ffocws yn newid i ddangosyddion perthnasol i'r ochr cyflenwi

cyllid i BBaCh yng Nghymru. Yna mae'r bedwaredd rhan yn archwilio dangosyddion gweithgarwch allweddol Banc Datblygu Cymru, gyda'r rhan derfynol yn darparu rhai casgliadau o'r dadansoddiad cyffredinol.

Bydd Adroddiadau Chwarterol yn y dyfodol yn ceisio cynnal sylw ar ystadegau allweddol sy'n effeithio ar alw BBaCh am, a'r cyflenwad o gyllid ariannu yng Nghymru, ond bydd y cynnwys yn amrywio yn ôl amseriad rhyddhau gwybodaeth ystadegol a materion economaidd sy'n codi yn ystod y flwyddyn.

2. Y cyd-destun yng Nghymru

2.1 Rhagolygon economaidd y DU a rhanbarthol

Mae'r ffactorau sy'n gyrru'r galw am gyllid allanol ar gyfer busnesau bach a chanolig yng Nghymru yn gymhleth. Fodd bynnag, mae amgylchiadau economaidd cyffredinol yn y DG (ac yn fyd-eang) yn effeithio ar dwf ac yna'r galw (a'r cyflenwad) am wahanol fathau o gymorth cyfalaf a chymorth ariannol.

Datgelodd chwarter cyntaf 2018 ansicrwydd cynyddol ar draws yr economi genedlaethol a'r Pwyllgor Polisi Ariannol ym mis Mawrth yn gwrthsefyll unrhyw gynnydd yng nghyfradd y banc. Yn ystod y chwarter cyntaf eleni, fe wnaeth economi'r DG brofi twf allbwn gwan, a ddigwyddodd yn bennaf yn sgil gostyngiad mawr mewn allbwn adeiladu (3.3% yn is na'r chwarter blaenorol), twf gweithgynhyrchu arafach, a thwf gwasanaethau'n arafu i 0.3%. Roedd y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn aneglur wrth briodoli perfformiad 2018Ch1 i dywydd gwael. Gwelwyd tyfiant allbwn gwael yn y chwarter cyntaf yn wyneb amgylchiadau cryfach yn y farchnad lafur (gweler isod).

Yn ôl Ffederasiwn y Busnesau Bach (FfBB), mae amodau economaidd yn bwydo pesimistiaeth yn y sector, gyda'u Mynegai Busnesau Bach yn datgelu nifer cynyddol o fentrau sy'n disgwyl i berfformiad fod wedi gwaethygu yn chwarter cyntaf 2018, ac fe adroddodd y FfBB bod un ymhob saith o berchnogion busnesau bach yn bwriadu lleihau maint eu busnes. Cysylltwyd y rhwystrau rhag twf yn 2018 â galw sâl o du defnyddwyr, a methiant rhag cael gafael ar staff medrus. Mae'r ansicrwydd a achosir gan Brexit hefyd yn thema barhaus wrth adrodd.

Yng Nghymru, mae ffigurau gwerth ychwanegol gros (GYG) ar gyfer 2017 eto i gael eu cyhoeddi (disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi ym mis Rhagfyr 2018). Yn 2016 cyrhaeddodd GYG Cymru £59.6 biliwn (i fyny 4.0% ers 2015) a chyda GYG y pen o'r boblogaeth yn £19,140, neu 73% o gyfartaledd y DG, gyda'r elfen wahaniaethol hon yn arddangos ansawdd cyson. Yr hyn sy'n peri pryder fwyaf o ran economi Cymru yw twf cynhyrchiant gwael a gwahaniaethau mewn rhagolygon economaidd ar draws gwahanol rannau o'r economi, gyda GYG y pen yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru mewn rhannau o ardaloedd Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn benodol.

Mae adroddiad Llywodraeth Cymru ar fasnach ar ôl Brexit, (*Polisi Masnach: y materion ar gyfer Cymru, Chwefror, 2018*) hefyd yn datgelu'r risgiau sy'n wynebu rhai o'r busnesau mwy yn yr economi rhanbarthol. Gallai'r risgiau hyn greu effeithiau gwrth-draw ar fusnesau bach a chanolig eu maint, ac mae llawer ohonynt yn ffurfio'r gadwyn gyflenwi i'r mentrau mwy hyn, yn enwedig mewn sectorau megis peiriannau modurol, trydanol a bwyd.

Mae marchnadoedd llafur yng Nghymru yn adlewyrchu cryfder y farchnad lafur ehangach yn y DG. Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2017, cyrhaeddodd y lefel gyflogaeth yng Nghymru (ar gyfer



y rhai 16-64 oed) bron i 1.374m, hyd at 19,200 yn fwy na'r flwyddyn flaenorol, gyda'r gyfradd o weithgaredd economaidd yn 76% (78.2% yn y DU) a'r gyfradd ddiweithdra yn 4.8% (DG 4.5%).

I grynhoi, mae'r Banc Datblygu Cymru newydd yn dechrau mewn amgylchedd lle mae busnesau bach a chanolig Cymru yn wynebu hinsawdd economaidd heriol ac ansicrwydd ynghylch rhagolygon twf tymor byr.

2.2 Sut mae busnesau bach a chanolig yng Nghymru yn edrych: deall y ffactorau sy'n llunio'r galw am gyllid

Mae'r dangosfwrdd cyntaf yn ceisio crynhoi gwybodaeth am natur y sector busnesau bach a chanolig yng Nghymru, a ffactorau a ddedolwyd sy'n llywio'r galw am gyllid allanol.

Mae D1 yn dangos dosbarthiad busnesau bach a chanolig yng Nghymru yn ôl maint band, ac mae'n pwyntio at y nifer fawr o ficro-fentrau (hynny yw, y rhai sy'n cyflogi 0-9) yng nghyfanswm y boblogaeth o fusnesau bach a chanolig. O bron i 252,000 o fusnesau bach a chanolig, mae dros 95% yn y categori micro-gwmnïau, sy'n cyfrif am 56% o gyflogaeth BBaCh a 42% o werthiannau BBaChau. Er mai uchafswm y terfynau yn y categori hwn yw naw o weithwyr, bydd y rhan fwyaf o fentrau micro yn cyflogi neb, neu un gweithiwr, gyda chyflogaeth gyfartalog mewn micro-fentrau yng Nghymru yn llai na dau o bobl. Un nodwedd barhaus o ran micro fentrau o'r fath yw'r ymdeimlad cryf nad ydynt eisiau ysgwyddo mwy o risg ariannol, ac amharoddrwydd cyfatebol i dyfu - yn wir mae'r rhain yn aml yn cael eu disgrifio fel rhai sy'n 'llaesu dwylo' yn y llenyddiaeth ymchwil. Mae hon yn ffactor sy'n ymgysylltu â dadleuon ynghylch problem cynhyrchiant rhanbarthol y DG. Ar ben arall y sbectrwm, mae mentrau maint canolig (51-249) yn ffurfio llai na 1% o'r cyfrifon menter BBaChau yng Nghymru, ond maent yn cyfrif am bron i un rhan o bump o gyflogaeth BBaCh a bron i 30% o werthiannau.

Mae D2 yn crynhoi'r newidiadau diweddar yng nghyfrif BBaCh Cymru, a chyflogaeth a gwerthiant cyfatebol. Yn ystod y cyfnod 2016-2017 gwelodd y grŵp micro BBaCh gynydd o 1% yn nifer y mentrau, a chynnydd o tua 1% mewn cyflogaeth, ond newid o 4% mewn gwerthiant. Yn yr un cyfnod, bu twf cryfach yn y cyfrif o fentrau a chyflogaeth yn achos busnesau bach a chanolig bach, ond gyda mentrau canolig yn profi gostyngiad o ran cyfrif menter, cyflogaeth a gwerthiant yn y flwyddyn hyd at 2017. Yn amlwg, fe all y newidiadau mewn cyflogaeth yn nhermau busnesau canolig adlewyrchu colli gweithgaredd mewn dim ond ychydig o fentrau yn unig.

Nid yw mentrau a chyflogaeth BBaCh wedi'u dosbarthu'n gyfartal ar draws sectorau Cymru (D3) gydag ychydig dros 17,000 o fusnesau bach a chanolig mewn sectorau cynhyrchu, ac mae'r sector hwn yn cyfrif am 56,000 o weithwyr. Mae nifer fawr o fusnesau bach a chanolig mewn sectorau megis gwasanaethau ariannol a busnes, manwerthu / cyfanwerthu, gwestai ac arlwyyo, a gwasanaethau marchnad breifat eraill. Mewn rhai o'r sectorau hyn, mae'r cyfyngiadau cyfalaf ar gyfer dechrau busnes yn is nag y maent mewn gweithgynhyrchu.

Mae newidiadau diweddar yn y cyfrif ac yng ngweithgarwch BBaChau wedi'u dosbarthu'n anwastad ar draws y gofod a'r sector (D4 a D5). Yn y flwyddyn hyd at 2017, gwelwyd cynnydd yn eu cyfrifon menter yn y Gogledd a Chanolbarth a De Orllewin Cymru yn y categorïau micro a chwmnïau bach. Profodd y tri rhanbarth yng Nghymru ostyngiad yn nifer y busnesau canolig yn y flwyddyn hyd at 2017.

Mae D5 yn dangos, o ran cyfrif mentrau, amaethyddiaeth a chynhyrchu, bod BBaCh wedi gweld y cynnydd mwyaf yn y flwyddyn hyd at 2017; yn achos cynhyrchu gan fwy na 15%. Bydd yn bwysig



monitro tueddiadau yn y sectorau hyn wrth i broses trawsnewid yr UE ddatblygu gyda'r ddwy sector yn fwy dibynnol (yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol) ar farchnadoedd allforio tramor, a hefyd, mewn achosion penodol, sy'n fwy agored i gystadleuaeth dramor. Gostyngodd nifer y mentrau adeiladu rhwng 2016-17, yn ogystal â nifer y mentrau mewn gwasanaethau eraill.

Mae tueddiadau mewn cyfrif menter, cyflogaeth a gwerthiant mewn busnesau bach a chanolig yn gysylltiedig â newidiadau ehangach mewn dangosyddion allbwn tymor byr yn economi Cymru (D6). Mae'r wybodaeth yn D6 yn adlewyrchu allbwn pob menter yng Nghymru, ac mae'n dangos cynnydd ym mhob un o'r mynegeion y llynedd, yn enwedig ym maes adeiladu.

Mae D7, 8 a 9 yn canolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â genedigaeth a marwolaeth BBaCh yng Nghymru. Diffinnir genedigaeth fel busnes sydd yn bresennol mewn blwyddyn benodol, ond nid oedd yn bodoli yn ystod yr un neu ddwy flynedd flaenorol. Nodir genedigaethau trwy gymharu'r boblogaeth fusnes weithredol flynyddol. Diffinnir cyfradd geni fel y gyfran o gwmnïau a gafodd eu geni fel cyfran o'r holl fentrau gweithredol. Mae mwyafrif y genedigaethau newydd yng Nghymru (D7) yn digwydd yn economi fawr y De Ddwyrain, gyda'r ardaloedd llai (yn nhermau economaidd) yn y Gogledd, a Chanolbarth a De Orllewin Cymru yn gweld llai o fusnesau yn dechrau o'r newydd. Fodd bynnag, dangosir bod gan De Ddwyrain Cymru gyfradd enedigol gryfach (tua 14%) o'i chymharu gydag ardaloedd eraill yng Nghymru. Yn syml, strwythurol yn rhannol yw perfformiad cryfach De Ddwyrain Cymru (D8).

Mae cyfraddau geni BBaCh cryf yn cael eu canfod mewn sectorau megis gweinyddu busnes (17%), gwasanaethau proffesiynol a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh), ac yn y sectorau hyn mae mwy o weithgarwch yn Ne Ddwyrain Cymru. Fodd bynnag, bydd sectorau ac ardaloedd Cymru sydd â chyfraddau uwch o enedigaethau hefyd yn profi cyfraddau uwch o farwolaethau busnes. Fodd bynnag, ar sail net, rhwng 2015 a 2016, roedd cynnydd mewn busnesau gweithredol yng Nghymru o dros 3,300.

Dangosir dynameg o ran genedigaeth a marwolaeth busnesau bach a chanolig yng Nghymru ar ffurf cyfraddau goroesi tair blynedd (D9). Mae yna rywfaint o amrywiad mewn cyfraddau goroesi ar draws gwahanol rannau o'r economi ranbarthol ond mae'r ffigurau'n dangos, o tua 100 o fentrau a ddechreuodd yng Nghymru yn 2013, yn nodweddiadol, dim ond tua 60 fyddai'n dal i fod yn weithgar dair blynedd ar ôl iddynt gael eu geni. Mae cyfraddau goroesi tair blynedd ychydig yn is yn Ne Ddwyrain Cymru nag mewn rhannau eraill o Gymru, ac mae'r cyfraddau goroesi ar gyfer mentrau'r DG yn debyg i'r cyfraddau cyffredinol yng Nghymru. Dengys dadansoddiad o fentrau a anwyd yn 2011 fod y gyfradd goroesi bum mlynedd yn gostwng i 43.2% yng Nghymru, o'i gymharu â 44.1% ar gyfer y DG.

Yn olaf mae D10 yn darparu gwybodaeth gan y Monitor Cyllid BBaCh ar gyfran y busnesau bach a chanolig sy'n defnyddio cyllid allanol, (boed hynny ar ffurf gorddrafftiau, cardiau credyd a benthyciadau). Yn 2017 amcangyfrifwyd bod 41% o fusnesau bach a chanolig Cymru yn defnyddio darpariaethau o'r fath (37% yn Lloegr a 36% yn Yr Alban). Datgelodd y Monitor Cyllid BBaCh hefyd mai dim ond 32% o fusnesau bach a chanolig yng Nghymru sy'n nodi bod ganddynt ddymuniad i dyfu, gyda 54% ohonynt yn fodlon cynnal eu gweithgarwch ar y lefelau presennol (D11). Yn amlwg, gallai nifer y mentrau sydd ag uchelgais twf isel fod yn ffactor sy'n pennu nifer y mentrau bach a micro sy'n esblygu i fod yn gwmnïau canolig.



3. Darpariaeth cyllid BBaCh a chost cyllid

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y ffactorau sy'n effeithio ar ddarparu cyllid i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru. Cyn dadansoddi gwybodaeth ar lefel Cymru, mae'n bwysig myfyrio ar dueddiadau ehangach y DG o ran benthycia. Mae D12 yn dangos bod cyfanswm y benthycia gan fanciau i fusnesau bach a chanolig yn y DG wedi gwastadhau ar swm ychydig o dan £60 biliwn yn 2015-2016, ac yna syrthio ychydig wrth fynd i mewn i 2017. Yn gwrthsefyll y gostyngiad bach yn lefel y benthycia gan fanciau yn 2017 mae yna gynnydd cyson (yn nhermau arian) o gyllid a llif asedau o sefydliadau ecwiti preifat. Roedd y cyfraddau llog i fusnesau bach a chanolig sy'n llwyddiannus wrth ennill benthyciadau (h.y. benthyciadau eraill ac arian newydd ymlaen llaw) ar gyfartaledd yn 3.32% yn 2018 (D13).

Mae D13 hefyd yn dangos cyfradd twf 12 mis sterling sefydliadau ariannol ar sail fisol a phob benthyciad ariannol tramor i fusnesau bach a chanolig (ar ffurf canrannol). Mae'r gyfres hon yn dangos twf mewn benthyciadau o ddim ond 0.2% ym mis Mawrth 2018 o'i gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol, ac mae'n dangos bod benthycia i fusnesau bach a chanolig wedi arafu yn ystod y rhan fwyaf o 2017.

Ffynhonnell bwysig o gyllid ar gyfer BBaCh yw cyfleusterau gorddrafft (D14). Yng Nghymru, roedd y stoc gronnol o falansau gorddrafft rhwng 2011Ch3 a 2017Ch4, tua £15 biliwn, gyda'r stoc o gyfleusterau gorddrafft wedi'i gymeradwyo tua £2 biliwn. Mae hyn yn gymharol uchel o ran y naill a'r llall o'i cymharu â rhanbarthau eraill y DG, ac o ystyried Cymru gyfan mae'n dod i gyfanswm o 4-5% o economi'r DG. Ar gyfer 2017Ch4 datgelodd Adroddiad Cyllid y DG (Chwefror 2018) fod llai o fenthyciadau ar lefel y Deyrnas Gyfunol, er bod Cymru'n ymddangos fel petai wedi symud yn erbyn y duedd gyda mwy o fenthyciadau wedi cael eu cymeradwyo o'i gymharu â'r un chwarter yn y flwyddyn flaenorol.

Er gwaethaf bod cyfran Cymru o gyfanswm benthyciadau banc yn y DG i fusnesau bach a chanolig wedi ei unioni fwy gyda maint yr economi, h.y. yn amrywio rhwng 4.5% a 4.7% yn y cyfnod 2013Ch2 i 2017Ch3, er bod D15 yn dangos rhywfaint o dwf yng nghyfran Cymru yn y cyfnod 2017Ch1-C3. Yng Nghymru yn 2017Ch3, roedd y cyfleusterau gorddrafft a gymeradwywyd ar gyfer mentrau bach (<50 o weithwyr) yn £1.31 biliwn o'i gymharu â £0.68 biliwn ar gyfer busnesau canolig. Mewn sawl rhanbarth arall yn y DG mae'r cymeradwyaethau gorddrafft ar gyfer mentrau canolig yn fwy na'r rhai i fentrau bach, gyda hyn yn nodi yn rhannol y nifer llai o fentrau canolig sydd yna yng Nghymru.

Mae'n anodd bod yn benodol o ran dosbarthiad gofodol benthycia i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru, ond mae D16 yn dangos bod ychydig dros 50% o'r benthycia yn y pedwar chwarter hyd 2017Ch3 i godau post Caerdydd ac Abertawe, er bod hyn yn cwmpasu ardaloedd trefol a gwledig yn y ddau achos. Mae'n anodd dod i gasgliadau cadarn o'r data hwn oherwydd problemau sy'n cyfateb i weithgarwch economaidd ardaloedd cod post, a chyda rhai ardaloedd cod post yn croesi ffiniau awdurdodau lleol. Mae D16 yn cynnwys amcangyfrif o'r benthycia gan fanciau i fusnesau bach a chanolig gyda chod post Yr Amwythig, ond wedi eu lleoli yng Nghymru (er enghraifft, yn cynnwys y rheini yn Y Drenewydd ac Aberystwyth).

Mae cyllid allanol i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru hefyd yn cynnwys cyllid cyfalaf menter a ffynonellau ecwiti preifat. Datgelodd y BVCA fod yna 50 o gwmnïau yng Nghymru a oedd wedi derbyn buddsoddiad yn 2016 (DU, 728). Yn bennaf, mae'r mentrau hyn wedi ennill cyfalaf menter a chyfalaf



ehangu, ac roeddent yn gysylltiedig â buddsoddiad o tua £49m yn 2016, i lawr o £55m yn 2015 (D17), a gyda llawer o'r buddsoddiad hwn (D18) wedi cael ei ganolbwyntio yn y sectorau gofal iechyd a thechnoleg (h.y. tua 82% o'r cyfanswm buddsoddiadau yn 2016). Mae gan y Banc Datblygu rôl arwyddocaol wrth ddarparu buddsoddiadau ecwiti yng Nghymru.

Yn olaf yn y dangosfwrdd hwn mae lefel y benthycia i fusnesau bach a chanolig hefyd yn ymgysylltu gydag asesiad darparwydd o risgiau BBaCh. Nid yw gwybodaeth risg fanwl ar gael ar gyfer pob BBaCh yng Nghymru. Fodd bynnag, mae D19 yn datgelu gwybodaeth gan dros 60,000 o fusnesau bach a chanolig yng Nghymru (gwybodaeth a gyrchwyd o gronfa ddata FAME ym mis Mehefin 2018 ac sy'n adlewyrchu'r cyfrifon cadarn diweddaraf sydd ar gael ar y dyddiad hwnnw). Mae'r dosbarthiadau risg a ddefnyddir yn amrywio o Risg Uchel i Ddiogel, a hynny'n deillio o gyfrifyddu a'r wybodaeth arall sydd ar gael i asiantaethau risg credyd.

Ar gyfer busnesau bach a chanolig a ddsberthir yn y categori risg uchel, mae disgwyliad sylweddol y byddant yn dod yn ansolfent o fewn blwyddyn ac ni fyddant yn gallu parhau i fasnachu heb weithrediadau adfer sylweddol. Mae gan y categori ymdrin â Gofal risg sylweddol o fethiant, gyda mentrau yn y categori hwn fel arfer bedair gwaith yn fwy tebygol o fethu na'r rhai yn y categori Normal.

Mae D19 yn cymharu cyfran y BBaChau sy'n disgyn i fandiau risg credyd gwahanol yng Nghymru, y DG a rhanbarthau dethol. Yn gyffredinol, mae'r gyfran o fentrau yng Nghymru ym mhob band risg credyd yn debyg i'r un yn y DG. Mae'r data yn dal i sobri rhywun wrth ei ddarllen gyda thua 4% o fusnesau bach a chanolig Cymru yn cael eu hamcangyfrif fel rhai Risg uchel ac mae 70% yn y categori ymdrin â Gofal. Ychydig iawn o amrywiad sydd yna yn y cyfrannau hyn ar draws gwahanol rannau o Gymru, er bod rhywfaint o amrywiad yn ôl diwydiant (D20). Mae cyfran lai o BBaChau yn y categori risg uchel mewn sectorau megis sectorau cynradd (amaethyddiaeth ac ati) ac yswiriant. Y canlyneb yw bod gan yr un sectorau hyn gyfrannau uchel o fentrau yn y categorïau Normal, Sefydlog neu Ddiogel.

4. Gweithgaredd Banc Datblygu Cymru

Mae'r tabl terfynol yn crynhoi gweithgareddau perthnasol Banc Datblygu Cymru hyd yma, o ran buddsoddiadau a wneir yn ôl math, sector, lleoliad, cronfa a maint y busnes. Gyda'i gilydd mae'r wybodaeth yn rhoi trosolwg o weithgaredd o fewn y cyd-destun galw a chyflenwi a ddarparwyd yn gynharach.

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y dangosfwrdd hwn yn dangos effeithiau tymor byr, a gofnodir ar adeg buddsoddiad neu ar y pen-blwydd cyntaf. Bydd adroddiad diwedd blwyddyn yn amlygu effeithiau tymor hwy gweithgarwch buddsoddi Banc Datblygu Cymru.

Mae'r pum panel cyntaf yn Nangosfwrdd 3 yn dangos graddfa a dosbarthiad Banc Datblygu Cymru hyd yma, gyda ffigurau cronfus yn cwmpasu'r cyfnod o 2001/2-2017/18. Yn ystod y cyfnod hwn mae D21 yn dangos bod cyfanswm buddsoddiadau bron yn £507m, gyda benthyciadau yn cyfrif am ychydig dros hanner y cyfanswm hwn, sef buddsoddiadau ecwiti sy'n cynrychioli tua 28% a buddsoddiadau mesanî'n yw'r 21% sy'n weddill.

Mae D22 yn darparu'r un dadansoddiad yn ôl y math o fuddsoddiad, ond mae'n dangos nifer y mentrau a'r swyddi a gefnogir dros y cyfnod hyd at chwarter olaf blwyddyn ariannol 2017/18. Mae bron i 2,900 o gwmnïau wedi derbyn benthyciadau, sy'n llawer mwy na'r niferoedd sy'n derbyn mathau eraill o fuddsoddiad, sydd wedi creu dros 11,000 o swyddi, a diogelu bron i 18,000. Mae D23 yn dangos bod



y sector gweithgynhyrchu wedi bod yn faes sydd wedi derbyn y rhan fwyaf o fuddsoddiadau'r Banc Datblygu Cymru, ac yna'r sectorau adeiladu, gwybodaeth a chyfathrebu ac wedyn y sectorau proffesiynol a thechnegol. Nid yw'r patrwm buddsoddi hwn yn cyfateb i ddsbarthiad cyffredinol busnesau bach a chanolig yng Nghymru, lle mae'r sectorau cynhyrchu yn cynnwys y nifer isaf o BBaChau, a swyddi cysylltiedig cymharol isel. Fodd bynnag, yn aml mae gan yr un sectorau cynhyrchu ofynion uwch am gyfalaf os ydynt am gael rhagolygon ar gyfer twf.

Dangosir dosbarthiad daearyddol y buddsoddiad hyd yn hyn yn D24. Fel y nodwyd yn gynharach, mae benthyciadau yn ffurfio mwyafrif y buddsoddiadau ymhob lleoliad, gyda rhanbarth y De Ddwyrain yn cyfrif am y gyfran fwyaf o bob math o fuddsoddiad. Canolbarth a De Orllewin sydd â'r gyfran fwyaf nesaf o fenthyciadau, a lefelau uwch o fuddsoddiad ecwiti cronnus a mesanîn na Gogledd Cymru. Mae D25 yn dangos buddsoddiadau cronnus a buddsoddiad sydd ar gael gan wahanol gronfeydd, fel yn chwarter olaf blwyddyn ariannol 2017/18. Y gronfa fwyaf yw Cronfa Busnes Cymru sy'n cael ei chyd-ariannu gan yr UE sydd â £170m i fuddsoddi. Mae gan nifer o gronfeydd Banc Datblygu Cymru y gallu i ailgylchu eu buddsoddiadau. Ar hyn o bryd mae Cronfa Eiddo Cymru wedi ailgylchu dros £22m. Mae'r setiau data nesaf (D26-D29) yn dangos gweithgaredd buddsoddi mwy diweddar. Er mai benthyciadau yw'r elfen fwyaf arwyddocaol o bortffolio Banc Datblygu Cymru, mae twf mewn buddsoddiadau benthyciadau wedi bod yn gymharol isel dros y cyfnod ers 2016 / 17Ch4 (D26). Buddsoddiad ecwiti welodd y gyfradd dwf uchaf, gan gynyddu fwy na 60% yn yr un cyfnod, gyda Beauhurst Research yn datgan bod Banc Datblygu Cymru yn fuddsoddwr ecwiti mawr yn y DG. Ar gyfer buddsoddiad mesanîn, mae'r duedd hirdymor (D27) yn uwch, ond mae D27 a D28 yn dangos rhywfaint o duedd anwadal mewn buddsoddiad o chwarter i chwarter.

Dangosir buddsoddiad diweddar gan y sector dethol yn D29. Mae hyn yn dangos symiau (£m) o fuddsoddiad cyffredinol ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18. Mae'r buddsoddiad wedi bod ar ei uchaf yn y sector adeiladu, a gweithgynhyrchu yn dilyn hynny ac yna gwybodaeth a chyfathrebu, gwasanaethau proffesiynol, a chyfanwerthu a manwerthu.

Mae siart D30 yn dangos gweithgarwch buddsoddi diweddar yn ôl maint cwmni. Yn ystod y flwyddyn ariannol 2017/18, cyfrifodd buddsoddiad mewn micro fentrau am y gyfran fwyaf o arian cyllido, sef 40%, gyda 36% o fuddsoddiadau mewn mentrau bach, a 23% mewn mentrau maint canolig. Dim ond 1% o werth y buddsoddiadau yn ystod y flwyddyn ariannol a wnaed i fentrau mawr.

Dangosir persbectif hanesyddol blynyddol ar fuddsoddiadau, nifer y mentrau a'r swyddi a gefnogir yn D31 a D32. Mae D32 yn dangos effaith tymor byr arian cyllido wrth greu a diogelu swyddi. Mae patrwm buddsoddiadau a swyddi wedi bod yn anwadal dros y cyfnod ers 2001. Mae'r gostyngiad mewn buddsoddiadau a swyddi yn ystod argyfwng ariannol 2007 yn arbennig o amlwg. Er bod buddsoddiad wedi adfywio'n gyflym wedi hyn, gan gyrraedd uchafbwynt yn 2010, gostyngodd buddsoddiad a swyddi eto yn y cyfnod hyd at 2012.

Mae'r cyfnod ers 2012 wedi gweld cynnydd mewn buddsoddiad a buddsoddiad wedi ei ysgogi o'r sector preifat. Fodd bynnag, mae nifer y swyddi newydd a grëwyd wedi cyrraedd rhyw wastadir ers 2014. Mae'r tueddiad mewn swyddi a ddiogelwyd yn uwch, ond gyda gostyngiad yn hynny o beth yn ystod 2015. Yn ystod 2017, cafodd 311 o fentrau fuddsoddiadau o dros £64m, gyda hyn yn gysylltiedig gydag ychydig dros £80 miliwn wedi cael ei ysgogi o'r sector breifat, bron i 1,200 o swyddi newydd a mwy na 2,500 o swyddi wedi'u diogelu.



5. Casgliad

Mae'r Adroddiad Chwarterol cyntaf hwn yn cynnwys nifer o ddangosyddion economaidd sy'n arwyddocaol i gyd-destun BBaCh Cymru. O'r sail hon y bydd yr Adroddiadau Chwarterol dilynol yn asesu newidiadau yn economi Cymru. Drwy wneud hyn, bydd DEC yn nodi heriau a chyfleoedd yn y dyfodol ar gyfer economi Cymru a Banc Datblygu Cymru fel un sy'n cyflawni polisi Llywodraeth Cymru.

Mae busnesau bach a chanolig Cymru yn gweithredu o fewn hinsawdd economaidd heriol. Disgwylir i'r ansicrwydd ynghylch rhagolygon economaidd y DG yn ystod 2018-2019 gael rhywfaint o ddylanwad ar y galw am gyllid. Mae'r Adroddiad Chwarterol cyntaf yn darparu tystiolaeth o dwf araf yn y DG yn y chwarter cyntaf yn 2018, a chyda'r posibilrwydd y gallai busnesau bach a chanolig yng Nghymru ddisgwyl perfformiadau tlotach eleni. Yr hyn sy'n tanategu ansicrwydd busnes yw diffyg eglurder ynghylch tirwedd pontio yr UE, a gyda rhai o allforwyr mwyaf Cymru'n wynebu cyfres gymhleth o risgiau waeth beth fydd y sefyllfa ddisgwyliedig ar gyfer Brexit.

Efallai y bydd perchnogion busnesau bach a chanolig yng Nghymru yn cymryd rhywfaint o gysur yn sgil amgylchiadau marchnadoedd llafur cryfach yn genedlaethol ac yn rhanbarthol gyda chyfraddau gweithgarwch yn uchel, a pheth cynnydd yn y gweithgaredd economaidd yng Nghymru sy'n cael ei gynrychioli gan fentrau micro a bach yn y gorffennol diweddar. Fodd bynnag, mae'r Adroddiad Chwarterol yn dangos perfformiad gwannach gan fentrau canolig o ran cyflogaeth a thwf gwerthiant yn ddiweddar. Mae'r Adroddiad Chwarterol cyntaf hefyd yn darparu tystiolaeth o amrywiadau cryf mewn cyfraddau geni busnes ar hyd a lled Cymru ac yn ôl sectorau, a'r niferoedd uchel o fentrau yng Nghymru sy'n methu yn ystod eu tair blynedd gyntaf wedi iddynt ddod i fodolaeth. Mae'r cyfraddau goroesi hyn yn gysylltiedig â'r canfyddiadau ar gyfraddau risg credyd o BBaChau Cymru, sy'n dangos y nifer fawr o fentrau sydd wedi'u categoreiddio yn y categorïau Risg Uchel ac ymdrin gyda Gofal.




Yng nghyd-destun cymhleth busnesau bach a chanolig yng Nghymru, mae Banc Datblygu Cymru wedi chwarae rhan bwysig wrth gefnogi gweithgarwch busnesau bach a chanolig, gyda chyfanswm buddsoddiadau o fwy na £0.5bn ers 2001, gan ysgogi dros £0.7bn gan y sector breifat, a chreu a diogelu dros 49,000 swyddi yng Nghymru. Sylwch fod y rhain yn amcangyfrifon swyddi hirdymor ac ni ellir eu cymharu â'r rhai yn y dangosfwrdd, sy'n canolbwyntio ar greu a chefnogi swyddi tymor byr yn unig.




Mae amgylchiadau economaidd anoddach wedi effeithio ar y twf mewn buddsoddiadau benthyca yn y cyfnod ers 2017Ch1, ond gyda thwf cryfach yn y buddsoddiad ecwiti yn ddiweddar. Yn fwyaf diweddar yn 2017, derbyniodd 311 o fentrau fuddsoddiadau o dros £64m, gyda hyn yn gysylltiedig gydag ychydig dros £80 miliwn wedi ysgogi o'r sector preifat, bron i 1,200 o swyddi newydd a mwy na 2,500 o swyddi wedi'u diogelu.





6. Dangosfyrddau Mehefin 2018

6.1 Dangosfwrdd 1: Y cyd-destun yng Nghymru












D9: % Y Gyfradd Oroesi Gyfartalog y Mentrau a Anwyd yng Nghymru yn 2013



D10: Y Defnydd o Gyllid Allanol yn y 5 Mlynedd ddiwethaf, % BBaCh









D11: Cynlluniau Twf BBACH ar gyfer y 12 Mis Nesaf (Ch4 2016, %)







6.2 Dangosfwrdd 2: Darpariaeth cyllid BBaCh a chost cyllid















D20: Risg Credyd BBaCh Cymru yn ôl Sector (Mehfin 2018)












6.3 Dangosfwrdd 3: Banc Datblygu Cymru











Ffynonellau:

D1 StatsCymru. Ar gael o: <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/Businesses/Business-Structure/Headline-Data/latestbusinessstructureinwales-by-sizeband-measure>

D2 StatsCymru. Ar gael o: <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/Businesses/Business-Structure/Headline-Data/enterprises-by-industry-sic2007-sizeband-area>

D3 StatsCymru. Ar gael o: <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/Businesses/Business-Structure/Headline-Data/latestbusinessstructureinwales-by-sizeband-measure>

D4 StatsCymru. Ar gael o: <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/Businesses/Business-Structure/Headline-Data/enterprises-by-sizeband-area-year>

D5 StatsCymru. Ar gael o: <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/Businesses/Business-Structure/Headline-Data/enterprises-by-industry-sic2007-sizeband-area>

D6 StatsCymru. Ar gael o: <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/Economic-Indices>

D7 StatsCymru. Ar gael o: <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/Businesses/Business-Demography/businessbirthsrates-by-area-year>

D8 StatsCymru. Ar gael o: <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/Businesses/Business-Demography/businessbirthsdeathsactiveenterprisesinwales-by-industry-variable-year>

D9 Demograffeg Busnes, Swyddfa Ystadegau Gwladol. Ar gael o: <https://www.ons.gov.uk/businessindustryandtrade/business/activitysizeandlocation/datasets/businessdemographyreferencetable>

D10 & D11 Monitrydd Cyllid BBaCh, 2016 / Adroddiad Blynnyddol (Mehefin). Ar gael o: <https://www.bdrc-group.com/products/sme-finance-monitor/>

D12 British Business Bank (2018). Small Business Finance Markets 2017/18. Ar gael o: <https://british-business-bank.co.uk/wp-content/uploads/2018/02/Small-Business-Finance-Markets-2018-Report-web.pdf>

D13 Bank of England, SME data <https://www.bankofengland.co.uk/boeapps/database/FromShowColumns.asp?Travel=NlxAZxl1x&FromCategoryList=Yes&NewMeaningId=SA&CategId=5&HighlightCatValueDisplay=Small%20and%20medium%20sized%20enterprises>

D14 UK Finance (2018). Business Finance Taskforce, Long Run Tables - Great Britain. Ar gael o: <https://www.ukfinance.org.uk/q4-2017-sme-manufacturers-borrow-more-while-service-businesses-retrench/>

D15 & D16 UK Finance (2018). GB SME Lending (loans and overdrafts). Ar gael o: <https://www.ukfinance.org.uk/uk-lending-by-postcode-sector-q3-2017/>

D17 & D18 British Private Equity and Venture Capital Association (2017) BVCA Private Equity and Venture Capital Report on Investment Activity 2016. Ar gael o: <https://www.bvca.co.uk/Portals/0/Documents/Research/Industry%20Activity/BVCA-RIA-2016.pdf?ver=2017-07-13-111054-127×tamp=1499940663502>

D19 & D20 FAME, Bureau van Dijk, and based on Companies House data. Ar gael o: <https://fame.bvdinfo.com/version-2018327/Home.serv?product=fameneo&setlanguage=en>

D21-D32 Banc Datblygu Cymru, Dadansoddiad arbennig